Cyflymu Busnes Cymru

# Diogelu Eich Busnes Digidol

## Oeddech chi'n gwybod?

**90%**
Mae 90% o fusnesau sy'n colli data drwy drychineb yn gorfod cau i lawr mewn 2 flynedd[1]

**33%**
Mae 33% o achosion lle mae diogelwch busnesau bach wedi'i danseilio yn ganlyniad uniongyrchol i ymdrechion i hacio[2]

**45%**
Mae 45% o achosion lle mae diogelwch busnesau bach wedi'i danseilio yn ymwneud â firysau[3]

**£65k**
Cost gyfartalog achos difrifol o danseilio diogelwch busnes bach[3]

## Beth yw firws?

Darn o god sy'n gallu copïo ei hun ac, yn nodweddiadol, mae'n cael effaith niweidiol, fel llygru'r system neu ddinistrio data

**Ceffyl Pren Troea ('Trojan')**
Yn gyffredinol, rhaglen nad yw'n ailgynhyrchu ei hun yw Ceffyl Pren Troea, sy'n cynnwys cod maleisus sydd, yn nodweddiadol, yn achosi colli neu ddwyn data a phosibilrwydd o niweidio systemau

**Maleiswedd**
Mae maleiswedd, sef y term byr am feddalwedd maleisus, yn unrhyw feddalwedd a ddefnyddir i ddifetha'r modd y mae cyfrifiadur yn gweithredu, i gasglu gwybodaeth sensitif, neu i gael mynediad i systemau cyfrifiaduron preifat

## Beth yw hacio?

Haciwr yw rhywun sy'n chwilio am wendidau mewn system gyfrifiadurol neu rwydwaith cyfrifiadurol ac yn eu hecsbloetio

**XSS**
**Hacio 'XSS'**
Pan fo rhywun yn ceisio sleifio i mewn i'ch gwefan drwy ei thwyllo i feddwl mai chi ydyw

**Hacio 'chwistrellu SQL' ('SQL injection')**
Pan fo rhywun yn ecsbloetio gwendidau mewn cronfa ddata i gael mynediad i'r data hwnnw

**Ymosodiad atal gwasanaeth**
Pan fo rhywun yn ceisio eich atal rhag cael mynediad i'ch rhwydwaith, gan gynnwys logio i mewn a chael mynediad i'ch ffeiliau

## Strategaeth amddiffyn

Rhowch gynllun adfer trychineb yn ei le ar gyfer bob rhan o'ch busnes digidol

Cynlluniwch ar gyfer:

**Trychinebau naturiol**
Argyfwng o ran eich enw da

**Anghytundebau ymhlith staff**
Colli data

**Methiant caledwedd**
Ymosodiad ar-lein

## Archwiliad iechyd o'ch gwefan

Gofalwch ddiweddaru meddalwedd eich gwefan yn rheolaidd. Gwiriwch bod datblygwr eich gwefan yn cynnwys y gweithgaredd hwn yn ffi ei wasanaeth cynnal.

Gwiriwch wasanaeth dadansoddi ('analytics') eich gwefan yn rheolaidd. Os sylwch ar unrhyw weithgaredd anarferol o wlad nad ydych yn masnachu â hi, neu fod cyfnodau gormodol o amser yn cael eu treulio ar eich gwefan, gofynnwch i ddatblygwr eich gwefan archwilio hyn.

Gofalwch fod eich cyfrinair gweinyddol yn gymhleth. Dylech osgoi geiriau sy'n hawdd i'w hadnabod a'u gwneud mor hir â phosibl o ran hyd. Newidiwch ef yn rheolaidd.

## Diogelwch staff

Cynhwyswch ddiogelwch digidol fel rhan o'ch proses gynefino

Gofalwch ddarparu hyfforddiant a diweddariadau rheolaidd, gan fod bygythion digidol yn newid yn barhaus

Gofalwch gloi systemau ac analluogi cyfrineiriau a hawliau gweinyddol pan fo staff yn gadael

1 nshare.co.uk - business continuity http://bit.ly/1sNWJWo • 2 onlincolnshire.org - internet safety fears http://bit.ly/1wSxSPj • 3 pwc.co.uk - cyber security 2014 http://pwc.to/13Hh6sU

Busnes Cymru Business Wales

www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy | 03000 6 03000

Llywodraeth Cymru
Welsh Government